AWTTC

@AWTTCcymraeg | @AWTTCcomms

cttcg.gig.cymru | awttc.nhs.wales

Cylchlythyr Hydref 2026

Os hoffech chi gael y rhifyn hwn yn Saesneg, anfonwch e-bost at **awttc@wales.nhs.uk**

Newyddion AWTTC



Rhowch eich barn ar y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol ar gyfer 2028–2031

Mae AWTTC wedi dechrau datblygu'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2028–2031 ac mae'n gofyn am adborth i helpu i lunio'r set nesaf o ddangosyddion.

Anogir gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a rhanddeiliaid eraill i rannu eu barn ynghylch pa ddangosyddion presennol y dylid eu cadw, eu haddasu neu roi'r gorau iddynt, yn ogystal ag awgrymu dangosyddion newydd i'w hystyried.

Bydd eich profiad a'ch adborth yn helpu i sicrhau bod yr NPIs yn parhau i gefnogi dulliau rhagnodi diogel, effeithiol a phriodol ar draws GIG Cymru.

Er gwybodaeth, mae'r **Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol cyfredol ar gyfer 2025–2028** ar gael ar wefan AWTTC. Rhannwch eich barn erbyn dydd Llun 16 Tachwedd 2026.

Cwblhewch yr Arolwg Adborth a Datblygu NPI ar gyfer 2028–2031
Rhannwch y gwahoddiad hwn gyda chydweithwyr a allai fod eisiau cyfrannu hefyd.

Llenwch yr arolwg



Dysgu dros Ginio - Hydref 2026

Cynhaliwyd y sesiwn ar-lein awr ddiweddaraf ar 15 Hydref a denodd fwy na 140 o weithwyr proffesiynol.

Roedd y sesiwn yn cynnwys rhaglen amrywiol o sgyrsiau yn canolbwyntio ar optimeiddio meddyginiaethau, gofal cleifion a datblygiadau clinigol diweddar.

Y cyntaf i gyflwyno oedd Emma Catling, Arweinydd Strategol Diffyg Maeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a drafododd 'Mynd i'r afael â diffyg maeth mewn cymunedau gyda dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd'. Dilynwyd hyn gan ddiweddariad newyddion gan Sabrina Rind, Uwch Fferyllydd yn AWTTC.

Roedd yr ail gyflwyniad ar 'Gabapentinoidau mewn poen cronig: Trosolwg o adnoddau Cymru Gyfan' a gyflwynwyd gan Uwch Fferyllydd arall AWTTC, Shaila Ahmed. Daeth y sesiwn i ben gyda 'Diweddariad therapiwteg cyflym' gan Tessa Lewis, Meddyg Teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chynghorydd Meddygol yn AWTTC.

Gobeithiwn y gallwch ymuno â ni yn ein sesiwn Dysgu dros Ginio nesaf ym mis Chwefror 2027.

Gwyliwch y cyflwyniadau



Trawsnewid Gofal Cleifion Trwy Bresgripsiynu Wedi'i Bersonoli

Ymunwch â ni am weminar sy'n archwilio sut y gall ffarmacogenomeg gefnogi presgripsiynu mwy diogel, mwy effeithiol a mwy personol yng Nghymru, yn ogystal â'n gweledigaeth ar gyfer ei integreiddio i ofal iechyd arferol.

Mae'r weminar wedi'i anelu at uwch arweinwyr, comisiynwyr, clinigwyr, presgripsiynwyr, fferyllwyr, ymchwilwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd yn nodi lansiad y Cynllun Cyflawni Ffarmacogenomeg newydd i Gymru, y cynllun cyntaf o'i fath yn y DU.

Dydd Gwener 13 Tachwedd 2026
9.30am - 10.30am

Cadeirydd: Dr Andrew Champion, Cyfarwyddwr Rhaglen, Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan
Prif siaradwr: Yr Athro Syr Munir Pirmohamed (Cadeirydd Meddygaeth David Weatherall a Chadeirydd Ffarmacogeneteg y GIG, Prifysgol Lerpwl)
Siaradwr: Andrew Evans OBE, Prif Swyddog Fferyllol Cymru, Llywodraeth Cymru
Siaradwr: Dr Sophie Harding, Fferyllydd Ymgynghorol ar gyfer Ffarmacogenomeg, GIG Cymru

Methu mynychu'n fyw? Cofrestrwch beth bynnag a byddwn yn anfon dolen atoch i'r recordiad ar ôl y digwyddiad.

Cofrestrwch yma



AWTTC ar restr fer Gwobrau Gofal Iechyd a Fferylliaeth Cymru 2026

Roedd Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) yn falch iawn o gael ei henwi yn un o'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghategori Gwobr Rhagoriaeth mewn Stiwardiaeth Wrthficrobaidd yng Ngwobrau Gofal Iechyd a Fferylliaeth Cymru 2026. Mae'r gwobrau'n cydnabod rhagoriaeth, arloesedd a chyfraniadau rhagorol i ofal iechyd a fferylliaeth ledled Cymru.

Mynychodd cydweithwyr AWTTC y seremoni wobrwyo ar 22 Hydref 2026 yng Ngwesty'r Vale ym Mro Morgannwg, gan ymuno â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob cwr o Gymru i ddathlu cyflawniadau ar draws y sector.

Roedd yr enwebiad yn tynnu sylw at fenter genedlaethol AWTTC i optimeiddio hyd cyrsiau gwrthfiotig ar gyfer heintiau'r llwybr anadlol heb gymhlethdodau. Gan gydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru, datblygodd AWTTC Ddangosydd Rhagnodi Cenedlaethol ar gyfer hyd cwrs gwrthfiotigau, dangosfwrdd rhyngweithiol i nodi amrywiad a thargedu ymyriadau lleol, a negeseuon cefnogi penderfyniadau rhagnodi i annog argymell hyd cwrs byrrach lle bo'n briodol yn glinigol.

Darllenwch ragor yma


Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)

Rhestr feddyginiaethau Blueteq GIG Cymru

Defnyddir system HCD Blueteq i awdurdodi'r defnydd o gyffuriau cost uchel a gymeradwywyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ar draws ystod gyfan o gyflyrau gofal iechyd.

Mae'r rhestr feddyginiaethau wedi'i diweddaru. Gallwch gael mynediad at y fersiwn ddiweddaraf o'r rhestr **yma**.


Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)



Fersiynau diweddaraf o ‘adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru’ ac ‘adroddiadau cyfnodau rhagnodi GIG Cymru’ wedi’u cyhoeddi

Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau misol sy'n darparu crynodeb byr o rai o'r metrigau allweddol a ddarperir o fewn dangosfyrddau SPIRA ar gyfer ‘datgarboneiddio anadlyddion’ a ‘chyfnodau rhagnodi’.

Darllenwch ragor yma



Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol 2026-2027: Dadansoddiad o ddata presgripsiynu hyd at Mehefin 2026

Mae adroddiad y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol (NPI), sy’n dadansoddi data ar gyfer y chwarter sy’n dod i ben ym mis Mehefin 2026, wedi’i gyhoeddi.


Darllenwch ragor yma

Canllawiau gwrthficrobaidd gofal sylfaenol – diweddariad

Mae diweddariadau wedi'u gwneud i'r adrannau: 'Haint y llwybr wrinol sy'n gysylltiedig â chatheter', 'Llid yr isgroen a Perichondritis', 'Y Clefyd crafu' a 'Candidiasis y Fagina'.

Cyfeiriwch at yr adran 'Diweddariadau' ar ddiwedd y ddogfen am fwy o fanylion.

Darllenwch ragor yma



Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)



Cwrs Tocsicoleg Feddygol wedi'i gynnal yng Nghaerdydd


Croesawodd Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Wenwynau (NPIS) Caerdydd 50 o gynrychiolwyr i'w Gwrs Tocsicoleg Feddygol yng Ngwesty'r Leonardo, Caerdydd, ar 9–10 Hydref 2026.

Teithiodd y mynychwyr o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Paris, Galway ac Awstralia, am ddau ddiwrnod o addysgu dan arweiniad arbenigwyr, diweddariadau clinigol a thrafodaeth.

Darllenwch ragor yma

Canolfan Cerdyn Melyn (CCM) Cymru

Ydych chi wedi cwrdd â'n masgot Charlie?



Mae'n serennu yn ei fideo ei hun!

Gwyliwch isod i ddysgu mwy am y cynllun Cerdyn Melyn a sut i roi gwybod am sgil-effaith i feddyginiaeth neu broblem gyda dyfais feddygol.



Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC)



Meddyg Ymgynghorol gwadd o Melbourne yn canmol arbenigedd

Yn ddiweddar, croesawodd Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC) yr Athro Cyswllt Fazio o Ysbyty Brenhinol Melbourne, Awstralia, ar ymweliad i ddysgu mwy am y gwasanaeth yng Nghaerdydd a gofal porffyria acíwt.

Gan ddisgrifio'r ymweliad fel "cyfle amhrisiadwy", gwnaeth yr Athro Cyswllt Fazio dynnu sylw at werth dysgu am y model gwasanaeth, strwythur staffio, poblogaeth cleifion a phrotocolau clinigol i lywio gofal yn Ysbyty Brenhinol Melbourne, sef yr unig ganolfan glinigol, labordy ac ymchwil gynhwysfawr yn Awstralia ar gyfer porffyria acíwt a chroenol.

Canmolodd hefyd gyrhaeddiad rhyngwladol rhestr cyffuriau diogel GCFC, sy'n cefnogi clinigwyr ledled y byd, gan gynnwys yn Awstralia, wrth reoli cleifion â phorffyria acíwt.

Dywedodd fod gwasanaeth Caerdydd yn "arweinydd byd-eang gwirioneddol ym maes gofal porffyria", gan dynnu sylw at ei arbenigedd a'i rôl fel pwynt cyfeirio rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau arbenigol.



Dathlu ein Technegwyr Fferyllfa

Oeddech chi'n gwybod bod Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC) yn cael ei gefnogi gan naw Technegydd Fferyllfa sy'n gweithio ledled Cymru?

Mae Technegwyr Fferyllfa yn hanfodol i ddarparu cyngor ar feddyginiaethau o ansawdd uchel. O reoli ymholiadau a chynnal chwiliadau llenyddiaeth i ddehongli tystiolaeth a chefnogi ceisiadau cymhleth am wybodaeth am feddyginiaethau, mae eu harbenigedd yn sicrhau bod GCFC yn darparu cyngor amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar ddefnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd ledled Cymru.

Mae eu gwybodaeth, eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddiogelwch cleifion yn cryfhau pob agwedd ar y gwasanaeth, gan eu gwneud yn aelodau gwerthfawr o dîm amlddisgyblaethol GCFC.

Gallwch ddarllen mwy am rôl Technegwyr Fferyllfa GCFC:

Mae'r ymweliad yn adlewyrchu gwerth rhyngwladol cyngor meddyginiaethau arbenigol GCFC a'i gyfraniad at gefnogi triniaeth ddiogel ac effeithiol cleifion â phorffyria.

Technegydd Fferyllfa Amy

Technegydd Fferyllfa Oliver

Rhannwch eich profiad i helpu i wella diogelwch meddyginiaethau



Fel rhan o'i waith parhaus i hyrwyddo diogelwch meddyginiaethau, mae Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru (GCFC) yn gwahodd pobl sydd wedi profi sgil-effaith, a elwir hefyd yn adwaith niweidiol i gyffur, i rannu eu stori.

Mae GCFC yn gobeithio gweithio gydag aelodau'r cyhoedd i greu stori ddigidol fer neu ffilm y gellir ei rhannu trwy ymgyrchoedd diogelwch meddyginiaethau a chyfryngau cymdeithasol. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o sgil-effeithiau meddyginiaeth, annog pobl i geisio cyngor ac adrodd am adweithiau a amheuir, a thynnu sylw at bwysigrwydd y Cynllun Cerdyn Melyn.

Byddai'r tîm yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sydd wedi profi sgil-effaith ac wedi bod angen cyngor neu driniaeth feddygol, wedi adrodd am adwaith a amheuir drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn, neu wedi dymuno eu bod wedi gwybod am y cynllun ar y pryd. Maen nhw hefyd â diddordeb mewn clywed gan bobl y mae eu profiadau wedi dysgu rhywbeth iddyn nhw maen nhw'n teimlo a allai helpu eraill.

Os hoffech chi gael gwybod mwy neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â:

Alana Adams, Prif Fferyllydd, e-bost: **alana.adams@wales.nhs.uk**

Cofrestrwch i gael cylchlythyr AWTTC wedi'i anfon i'ch mewnflwch

AWTTC | **Cysylltu â ni** | **Polisi Preifatrwydd**

Wales NHS | The Routledge Academic Centre University Hospital Llandough Penlan Road | Penarth, CF64 2XX GB

Unsubscribe | Update Profile | Constant Contact Data Notice

Constant Contact

Try email marketing for free today!